THE CARMARTHENSHIRE ANTIQUARIAN SOCIETY
CYMDEITHAS HYNAFIAETHAU SIR GAERFYRDDIN
Carmarthenshire's History Society

# NEWYDDION/NEWSLETTER Ebrill/April 2022

**www.carmants.org.uk** @carm_ant

https://www.facebook.com/The-Carmarthenshire-Antiquarian-Society-114354163677632

***If you know of anyone who may be interested in joining the Society, or is a member who does not receive this newssheet, please invite them to contact our Membership Secretary: Mary Thorley, via*** *Carmantiquarians@gmail.com*

## PROGRAMME:

**Saturday April 23rd 2 p.m. and 2.30 p.m.** AGM and talk by Michael Freeman on Bidding Letters: the local custom of inviting guests to a wedding. In Llanarthne Village Hall SA32 8JD

**September Excursion:** We want to explore whether there would be sufficient interest in reviving the '**summer excursion'** that the Society used to hold. The proposal is to go by coach to Bristol for about three days, staying in a hotel and visiting places of interest there. Please contact Mary Thorley - *Carmantiquarians@gmail.com* – if you think you may be interested.

## NEWS UPDATE:

**Do you give history/archaeology talks?** Many of our members already do that. We'd like to collect together titles and contact details for dissemination to other groups and organisations across the County, now that opportunities are arising post-Covid. It will provide opportunities to promote the Society and gain more members. Already an impressive list has been commenced, but it would be good to build it up still further. Contact Peter Stopp via aandpstopp@gmail.com or tel. 01994 427310 if you can offer a talk to add to the list.

**2023 Programme**: We have successfully trialled joint meetings over the past two years. Each local history society has provided the venue and we have provided the speaker. If your local society is interested in sharing a meeting with us please contact Eurig Davies – e.davies11@btinternet.com

**Carmarthenshire Enlightenment Project:** For a successful bid for funding we now need groups of people who will help - with our support - to develop and trial the outputs. Outputs envisaged are: local trails in some of those places; a travelling exhibition; a schools' resource kit; a video; booklet (s); and website and social media development. If you would like to take part or have contact with others (e.g. groups or organisations) who might help with any of these please email aandpstopp@gmail.com

## REPORTS:



**March 26th Meeting at Cwm-du.** Richard Keen gave a superb talk in the village Baptist chapel outlining National Trust rescue projects he had been involved with over the many years he worked with them. It contained many revealing and often amusing anecdotes. After a picnic lunch in the sunshine we squeezed into the public bar to hear more about the rescue of Cwmdu chapel, shop, pub, and housing terrace with its

continued management by the village community. Finally, we viewed the rescued and restored buildings themselves.

***Place-Names of Carmarthenshire*: Richard Morgan publication April 2022**

Publication is expected to take place in April 2022 and details are now being circulated through http://welsh-academic-press.shopfactory.com). The paperback volume and the ebook will both retail at £19.99. *Place-Names of Carmarthenshire* discusses more than 920 place-names and river-names in the historic county of Carmarthen (1536-1974). It follows the same general format as *Place-Names of Glamorgan* with illustrations and maps but the glossary has been expanded to include cross-references to individual place-names containing particular elements. A record of the historic sources cited in the volume will be accessible online.

**HELP:**

- We wish to obtain up to 20 **display panels**, ideally of the pole and panel type. Do you know of a source for these – e.g. 'once-loved', as they say?
- Can you turn your hand to costume-making? We'd like to make a costume that Griffith Jones would have worn and possibly also a class set of costumes that C18 children would have worn.
- Are you a photographer? We'll need to take photos of places in the Carmarthenshire Enlightenment circuit for publication;
- Also we'd like to make a film or short video clips of places on that circuit for which we'd need a couple to act the roles and someone to video.

– If you could help with any of the above please contact Peter Stopp aandpstopp@gmail.com.

**Discussion points:**

We want to attract even more members to the Society, especially younger members from different backgrounds. So we are reviewing how we present the Society to the wider public. That includes a reconsideration of our name – does it put people off, perhaps?
Most successful organisations have what is called a 'strapline' – a brief selling statement. At present ours is 'Carmarthenshire's History Society' (as in our header to this newsletter). That has prompted the retort that if we need to add that under our name as an explanation then it is indeed time to change our name! That would also mean we'd need a different strap-line. What do you think – all suggestions considered!

THE CARMARTHENSHIRE ANTIQUARIAN SOCIETY
CYMDEITHAS HYNAFIAETHAU SIR GAERFYRDDIN
Carmarthenshire's History Society

# NEWYDDION/NEWSLETTER Ebrill/April 2022

**www.carmants.org.uk** @carm_ant

https://www.facebook.com/The-Carmarthenshire-Antiquarian-Society-114354163677632

***Os gwyddoch am rywun a hoffai ymaelodi â'r Gymdeithas, neu'n gwybod am aelod nad yw'n derbyn y Newyddlen hon, gofynnwch iddynt,anfon gair at ein Hysgrifennydd Aelodaeth: Mary Thorley*** ar *Carmantiquarians@gmail.com*

**RHAGLEN:**

**Sadwrn 23 Ebrill 2.00pm. a 2.30 pm.** Cyfarfod Blynyddol a sgwrs gan Michael Freeman ar Lythyron Neithior: defod wrth estyn gwahoddiad i briodas. Neuadd y Pentref, Llanarthne SA32 8JD

**Taith Haf:** Tybed a oes diddordeb gan aelodau i adfer y **Daith Haf** a fu'n boblogaidd yn y gorffennol. Cynigir taith ar fws i Fryste, tair noson mewn gwesty ac ymweliadau â mannau o ddiddordeb. Cysylltwch â Mary Thorley - *Carmantiquarians@gmail.com* – os oes gennych ddidordeb.

**NEWYDDION:**

**A allwch chi gynnig sgwrs ar hanes neu archaeoleg?** Mae amryw aelodau yn gwneud hynny eisoes. A hithau'n adeg llacio cyfyngiadau Covid, hoffem lunio rhestr o bynciau a manylion cyswllt i'w rhannu ymysg mudiadau eraill yn y Sir. Bydd yn gyfle i hyrwyddo'r Gymdeithas a chynyddu aelodaeth. Mae rhai wedi cynnig eu gwasanaeth eisoes, ond da o beth fyddai gallu ychwanegu at y rhestr. Cysyllter â Peter Stopp ar aandpstopp@gmail.com neu ar y ffôn 01994 427310 i fanteisio. ar y cyfle.

**Rhaglen 2023**: Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf arbrofwyd trwy gynnal cyfarfodydd ar y cyd â chymdeithasau hanes lleol. Darparwyd y lleoliad gan y gymdeithas leol a'r siaradwr gennym ni. Os oes gan eich cymdeithas chi ddiddordeb i gynnal digwyddiad o'r fath gyda ni, cysyllter ag Eurig Davies - e.davies11@btinternet.com

**Goleuo Sir Gâr:** Er mwyn i'r cais am gyllid lwyddo rhaid wrth gefnogwyr a fydd – gyda chymorth gennym ni – yn datbygu a threialu'r cynnyrch. Dyma a arfaethir: llwybrau lleol; arddangosfa deithiol; pecyn adnoddau ar gyfer ysgolion; fideo; taflen(ni); gwefan; datblygu presenoldeb ar gyfryngau cymdeithasol. Os hoffech ymuno â'r fenter neu'n gwybod am eraill a allai gynorthwyo cysyllter â aandpstopp@gmail.com

**ADRODDIADAU:26 Mawrth, Cwm-du**
Cafwyd sgwrs ddeniadol gan Richard Keen yng nghapel y Bedydwyr yn y pentref. Bu'n trafod amryw gynlluniau cadwraeth y bu'n ymwneud â nhw yn ystod ei gyfnod gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Cafwyd picnic yn yr heulwen braf cyn ailgynnull ym mar bychan tafarn y pentref i glywed rhagor am y berthynas a ddatblygwyd rhwng y gymuned leol a'r Ymddiriedolaeth. Bu cyfle wedyn i weld y gwaith cadwraeth a gyflawnwyd.



***Place-Names of Carmarthenshire*: Richard Morgan**
Disgwylir y bydd y llyfr hwn yn cael ei gyhoeddi yn Ebrill 2022 gan Welsh Academic Press (www.welsh-academic-press.wales) Mae manylion ar gael yn hwylus ar http://welsh-academic-press.shopfactory.com Bydd enwau tanysgrifwyr yn cael eu cynnwys yn y gyfrol ond ni ddatgelir gwybodaeth bersonol nac e-gyfeiriadau. Bydd y llyfr, naill ai'r gyfrol clawr papur neu'r e lyfr, ar gael am £19.99. Trafodir dros 920 o enwau lleoedd ac enwau afonydd sir hanesyddol Caerfyrddin (1536-1974). Dilynir yr un drefn gyffredinol â *Place-Names of Glamorgan* o ran lluniau a mapiau ond ehangwyd yr eirfa er mwyn cynnwys croesgyfeiriadau at elfennau penodol mewn enwau lleoedd unigol. Bydd cofnod o'r ffynnonellau hanesyddol a grybwyllir yn y gyfrol ar gael ar-lein.

**HELP:**

- Hoffem ddod o hyd i ryw 20 o baneli arddangos a'r rheini ar goesau os yw hynny'n bosibl. Caent gartref gwerthfawrogol!
- A oes gennych ddawn gwneud gwisgoedd? Hoffem wisg a weddai i Griffith Jones ac o bosib wisgoedd plant yn null y ddeunawfed ganrif.
- A ydych chi'n cael hwyl ar dynnu lluniau â chamera? Bydd angen lluniau o safleoedd ar lwybrau Goleuo Sir Gâr i'w cyhoeddi.
- Hoffem wneud ffilm neu glipiau fideo o'r safleoedd ar y llwybrau. Bydd angen rhai i gymryd rhan a thrin y fideo..

– Os gallwch fod o gymorth cysyllter â Peter Stopp aandpstopp@gmail.com

**Pwnc trafod:**
Mae’r Gymdeithas yn awyddus i ddenu rhagor o aelodau o amrywiol gefndiroedd yn enwedig o blith y to iau. Rydym yn trafod ar hyn o bryd sut y dylid cyflwyno’r Gymdeithas yn llwyddiannus gerbron y cyhoedd. Mae hynny’n cynnwys ailystyried ein disgrifiad ni ohonom ni ein hunain. Tybed a yw’r disgrifiad hwnnw’n addas erbyn hyn?

Mae gan y mwyafrif o sefydliadau llwyddiannus bennawd marchnata neu faner hyrwyddo. Dyma sydd gennym ni ar hyn o bryd ‘Cymdeithas Hanes Sir Gaerfyrddin’. (Mae wedi’i osod ar frig y newyddlen hon.) Dyma un ymateb: os oes rhaid ychwanegu hwnnw, mae’n hen bryd newid yr enw! Wedyn byddai angen pennawd hyrwyddo gwahanol. Hoffem glywed eich barn chi.